

GALWAD

GWEITHREDU

EDRYCHWCH AR YCHYDIG O
YSBRYDOLIAETH GAN YSGOLION LEDLED
CYMRU AR SUT I DROI EICH SYNIADAU YN
WEITHREDOEDD A DECHRAU MUDIAD AR
GYFER NEWID YN EICH YSGOL A'CH
CYMUNED

Eco-Schools



Eco-Sgolion



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

Gwybodaeth gefndir

Dechreuasom yr wythnos hon drwy ddweud nad ydym yn gwybod beth fydd yn digwydd yn y dyfodol ond rydym yn gwybod bod gennym y pŵer a'r potensial i greu ein dyfodol ein hunain.

Rydych wedi edrych ar sut y gallai bywyd ar y ddaear fod ymhen 30 mlynedd yn seiliedig ar effeithiau'r materion amgylcheddol sy'n digwydd heddiw. Gall meddwl am fywyd yn y dyfodol fod yn frawychus gan y dywedir wrthym faint o ddifrod y mae bodau dynol yn ei wneud i'r blaned, a all fod yn llethol ac yn anodd gweld unrhyw atebion.

Fodd bynnag, mae gan bobl ifanc fwy o bŵer nag erioed i wneud newidiadau ar gyfer y dyfodol ac i gymryd camau cadarnhaol yn erbyn llygredd, gwastraff a newid yn yr hinsawdd. Wedi'u hysbrydoli gan eraill, fel Greta Thunberg, mae plant a phobl ifanc ledled y byd sy'n poeni am y blaned a'r dyfodol wedi bod yn gweithredu, yn sicrhau bod pobl yn eu clywed ac mae eu lleisiau'n CODI! Mae pob peth bach y mae unigolion yn ei wneud i ledaenu'r neges, boed hynny gartref, yn yr ysgol neu ar gyfer eu cymuned, yn ychwanegu at lais torfol byd-eang y blaned ac yn helpu i sicrhau bod eraill yn ei glywed.

**“DYDYCH CHI BYTH YN RHY FACH I
WNEUD GWAHANIAETH!”**

Greta Thunberg

Felly pa gamau y byddwch yn eu cymryd? Sut byddwch chi'n sicrhau bod eich neges yn cael ei chlywed?

Y peth cyntaf yw gwybod beth rydych chi am ei wneud, a pham. Mae hyd yn oed y gweithredoedd lleiaf yn effeithio ar ddyfodol y blaned, ac mae gennych chi'r wybodaeth a'r dychymyg i fod yn arloesol yn eich gweithredoedd.

Unwaith y byddwch chi'n gwybod beth rydych chi eisiau ei wneud, mae dweud wrth bobl amdano'n hanfodol er mwyn cael eraill i'ch cefnogi, ymuno a gweithredu. Mae gwneud yn siŵr eich bod chi'n gwybod ar gyfer pwy mae'r neges (ei chynulleidfa), beth yw'r neges a beth rydych chi am ei gyflawni trwy iddynt ei glywed yn ffactorau pwysig iawn i'w hystyried. Hefyd – pa ddull sydd orau? Fideo, sain, print? Gall dewis y ffordd orau o gyflwyno'ch neges fod yn allweddol i'w llwyddiant.

Cofiwch – po fwyaf o bobl sy'n clywed ac yn cael eu hysbrydoli gan eich neges, y mwyaf tebygol ydynt o ymuno â chi yn eich ymdrech tuag at ddyfodol mwy disglair i bawb.

Bydd y gweithgareddau canlynol yn mynd â chi drwy gynllunio eich gweithredoedd amgylcheddol a sicrhau bod eraill yn clywed eich syniadau.

Gweithgaredd 1

Nawr eich tro chi yw gweithredu.

- Dangoswch gardiau post Syniadau Da Eco-Sgolion (casgliad o gamau eco-weithredu gwych a gymerwyd gan ysgolion ledled Cymru) a meddyliwch pa les a wnaethant? A fydden nhw'n gweithio yn eich ysgol chi?
- Mewn grwpiau – yn seiliedig ar yr hyn y maent wedi'i glywed a'i ddysgu yr wythnos hon a chan ddefnyddio cardiau post Syniadau Da fel ysbrydoliaeth, dylai'r disgyblion ystyried pa gamau yr hoffent eu cymryd yn yr ysgol neu'r gymuned eleni er mwyn gwneud newid cadarnhaol i'r amgylchedd a'r gymuned ar gyfer y dyfodol. Rhannwch y syniadau gyda'r dosbarth cyfan.
- Fel dosbarth – dylai disgyblion ddewis tri cham gweithredu o blith y rhai a rannwyd y maent yn meddwl fyddai fwyaf addas a buddiol i'w hysgol/cymuned a defnyddio'r templed a roddir i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer gwireddu'r tri tharged. Cofiwch ystyried sut y byddwch yn mesur y gwahaniaeth yr ydych yn ei wneud neu a yw pobl yn newid yr hyn y maent yn ei wneud o ganlyniad i'ch ymgyrch neu darged.

Gweithgaredd 2

Sut gallwch chi ledaenu eich syniadau a'ch gweithredoedd i'r gymuned leol er mwyn sicrhau bod eich lleisiau'n cael eu clywed?

Meddyliwch sut mae eraill (ysgolion/elusennau/busnesau/clybiau) yn cyfleu eu negeseuon i bobl ym mhobman? Ystyriwch:

- Cyfryngau cymdeithasol - Twitter etc.
- Diwrnodau gweithredu (protestiadau/gorymdeithiau/digwyddiadau ymwybyddiaeth)
- Cyfryngau ysgrifenedig – papurau newydd, cylchgronau, cylchlythyrau, poster/baneri/taflenni
- Teledu/Fideo
- Radio/podlediadau

Sut gallwch chi sicrhau bod eich ysgol/cymuned yn gwybod eich bod yn gweithredu a pham?

Mewn grwpiau, dylai disgyblion benderfynu beth maen nhw'n meddwl yw'r ffordd orau o sicrhau bod eu neges yn cael ei chlywed a chreu eu datrysiad. Gallai hyn fod yn seiliedig ar ddigidol neu ddeunydd a gallai gynnwys pethau fel cyfres o drydariadau, cylchlythyr, neges fideo, neges llais, posteri/baner, arddangosfa gelf neu rywbeth cwbl wreiddiol. Po fwyaf gwahanol yw'r dulliau a'r negeseuon, gorau oll!

Gweithgaredd ymestyn:

Ystyriwch droi eich gweithredoedd/neges yn ymgyrch lawn. Ymchwiliwch i ymgyrchoedd presennol ac yna cynlluniwch eich un eich hun – byddai hyn yn cynnwys eich cynllun gweithredu a'ch neges ond hefyd byddai gennych enw/slogan a chyfres o hysbysebion/negeseuon/cystadlaethau ysbrydoledig, deniadol i annog eraill i gymryd rhan. Dyma rai ymgyrchoedd presennol i'ch rhoi ar ben ffordd:

- [Fridays for Future](#)
- [Diwrnod y Ddaear](#)
- [Unblocktober](#)

Myfyrio

30 mlynedd yn ôl, daeth pobl ar y ddaear at ei gilydd pan sylweddolôn nhw fod CFCs mewn aerosolau ac oergelloedd yn achosi twll yn yr haen oson. Digwyddodd symudiad byd-eang a welodd CFCs yn cael eu gwahardd a newid enfawr mewn ymddygiad. Nawr mae'r twll yn yr haen osôn yn crebachu ac yn dystiolaeth y gall dynoliaeth ddod at ei gilydd a mynd i'r afael ag argyfwng amgylcheddol os ydym yn dewis gwneud hynny.

Gallwn ddefnyddio hyn fel ysbrydoliaeth ar gyfer sut y gallwn ddal i ddod at ein gilydd i ddatrys heriau dros y 30 mlynedd nesaf, efallai gan ddechrau gyda rhai o'r ymgyrchoedd sy'n cael eu datblygu heddiw!

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

Dibenion

- Dinasyddion moesegol, gwybodus
- Cyfranwyr mentrus, creadigol

MDPh a datganiadau Beth sy'n Bwysig

Y Dyniaethau

- Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredu dynol.
- Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac amrywiol, ac yn cael eu siapio gan weithredoedd a chredoau dynol.

- Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn ymgysylltu â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r ddynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyriol a moesol.

Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Mae ieithoedd yn ein cysylltu

Nodau Byd-eang



Nod 11: Dinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy

Nod 12: Defnydd a Chynhyrchu Cyfrifol

Nod 13: Gweithredu o ran yr hinsawdd

Ein Cynllun Gweithredu Eco-Sgollion (Blwyddyn Academaidd)

Targed	Gweithgaredd	Pwy sy'n gyfrifol	Cost	Amseru	Sut ydym am fesur llwyddiant? <i>(Monitro)</i>	Pa wahaniaeth o ganlyniad? <i>(Gwerthuso)</i>
e.e. Arbed ynni	Gwneud yn siŵr fod y goleuadau i ffwrdd pan mae'r ystafell yn wag	Aelod o bob dosbarth, yn eu tro yn ôl y 'rota'	Dim!	Yn dechrau mis Mai, ac yn parhau nes bod angen	Darlleniadau meter gyda help y gofalwr. Sïart ym mhob dosbarth i nodi os oedd golau wedi ei adael arnodd a gwobr i'r dosbarth gorau pob wythnos!	(Cwblhewch ar y diwedd i ddangos y gwahaniaeth a wnaed) Mae siartiau'n dangos bod goleuadau'n cael eu gadael ar gyfartaledd 10 gwaith yr wythnos, dim ond unwaith nawr.

GALWAD

UNBOXED

CREATIVITY IN THE UK



**Cymru Greadigol
Creative Wales**

Cynhyrchir GALWAD gan Casgliad Cymru a'i gomisiynu gan Cymru Creadigol fel rhan o 'UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU'.

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB
33-35 Cathedral Road, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767
keepwalestidy.cymru
info@keepwalestidy.cymru



Eco-Schools



Eco-Sgollion

